



CYMCDEITHAS HYNAFIAETHWYR A NATURIAETHWYR MÔN CYLCHLYTHYR • NEWSLETTER

ANGLESEY ANTIQUARIAN SOCIETY AND FIELD CLUB

No. 65 Hydref / Autumn 2015

EDITORIAL

As you will see below, members of the Society enjoyed some excellent talks and excursions over the summer period. With autumn on its way, it is heartening to know that the Society's Autumn/Spring programme gives us lots to look forward to over the coming months. I would particularly draw your attention to the Day School (Saturday, 13th Feb). Focused on visitors to Anglesey in the eighteenth and nineteenth centuries, it promises to be a really interesting and informative day. Further details are enclosed in this mailing.

I must admit it was with some trepidation that I took over the editorship of the Newsletter. I needn't have worried; I have received such wonderful support.

Heartfelt thanks go to everyone who has helped in its production. Frances Lynch Llewellyn, Dr Ken Roberts and Donald Pritchard have reported on talks and excursions; Dr Lowri Ann Rees and David Elis-Williams have translated articles; and Dr Ken and Siôn Caffell have provided excellent photos. Thanks also go to Tom Pollock for his layout work. It really has been a collective effort. Especial thanks go to Dr Ken who, having produced such a successful Newsletter for many years, needs to be a little kinder to his eyesight and step back from such demanding close work. I am most grateful to him for taking me under his wing and for giving me such expert guidance and advice on the editorial process. Dr Ken will be a very hard act to follow.



Excursion; Holyhead Port, lighthouse.

Edrych Ymlaen / Looking Ahead

Cyfarfodydd/Meetings 2015 – 2016
Oriol Ynys Môn, 7pm

18th September

The Act of Union and the Identity of Wales
Nia Watkin Powell

Hydref 16

Darlith Goffa Syr Ifor Williams
Plant Ynys Môn yn ystod y rhyfel mawr
Dr Gerwyn James

20th November

Modern Megaliths: returning to the Stone Age for the 21st century
Tim Daw

15th January

Anglesey's Ancient Fonts
Aimee Pritchard

19th February

Celebrating the Centenary of the WI
Betty Parker

18th March

Potpourri; Details will be on the web site later

15th April

The Cemaes Court Case of 1862
Professor Huw Pryce

20th May Annual General Meeting

History of the Halen Môn development
David Lea Wilson

DAY SCHOOL

Saturday 13th February

Topic: Visitors to Anglesey in the eighteenth and nineteenth centuries (full details forthcoming).

Holiadur y Gymdeithas

Nôd yr Holiadur hwn oedd crynhoi barn yr Aelodau am y Gymdeithas a'u syniadau am ffyrdd i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Fe'i cynhaliwyd fel eitem 'pot-pourri' yng nghyfarfod mis Mawrth 2015 y Gymdeithas gyda 43 o bobl yn bresennol (tua 10% o'r holl aelodaeth), pob un yn cyfrannu i'r ymarferiad trwy gwblhau'r ffurflen bwrsasol ac yna'n cymryd rhan yn y drafodaeth fywiog oedd yn dilyn. Bydd yr erthygl hon yn ceisio amlinellu prif gasgliadau'r holiadur a mae croeso i unrhyw un dderbyn copi o'r dadansoddiad llawn trwy gysylltu â Gareth Huws (g.huws@btinternet.com).

Roedd yr holiadur wedi'i rannu'n dair rhan – Adran A yn llunio proffil o'r aelodaeth bresennol; Adran B yn gofyn ymateb i'r cyfarfodydd a'r teithiau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol; Adran C yn ymfyn syniadau am ddyfodol y Gymdeithas a'r Aelodaeth.

Dangosodd Adran A y proffil y canlynol o'r aelodaeth: Roedd 70% o'r ymatebion gan uwch-oedolion (oedran 65 blwydd+); dewisodd 35% ateb fersiwn Gymraeg o'r ffurflen; roedd 55% naill ai'n byw neu'n gweithio ar Ynys Môn; daeth 11% i fyw

The Society's Questionnaire

The aim of the questionnaire was to seek members' thoughts on the way the Society is run and how to plan for its future. It was held on March 20th 2015 as an item in the potpourri programme. 43 attendees were present (in the region of 10% of all membership) and they all completed the pro-forma and contributed to the lively debate which followed. This article will attempt to give Newsletter readers an outline of the main findings of the Questionnaire (a full analysis of all the answers received can be obtained from Gareth Huws g.huws@btinternet.com).



Gareth Huws

The Questionnaire was in three sections – Section A being a profile of the membership; Section B asked for responses to previous meetings and excursions; Section C explored ideas for the future of the Society.

In Section A, the membership profile revealed the following: 70% of responses were from super adults (aged 65 years +); 35% opted for the Welsh Language version of the pro-forma; 55% either lived or worked in Anglesey; 11% had moved to Anglesey in the last five years; 49% spoke and understood Welsh and a further

ar Ynys Môn yn ystod y pum mlynedd diwethaf; honodd 49% iddynt ddeall a siarad Cymraeg gyda 25% ychwanegol yn gallu deall yr iaith ond heb yr hyder i'w siarad; gwelwyd 89% o'r rhai oedd yn bresennol yn dweud eu bod yn hoffi'r fformat darlith gyda 76% yn gwerthfawrogi sesiynau cwestiwn-ac-ateb; nododd 46% eu bod yn awyddus i gael arbrofi gyda fformat seminar ar gyfer ambell gyfarfod.

Pwyntiau Trafod Adran A – Mae'r aelodaeth yn heneiddio ond gellir ystyried hyn fel nodwedd bositif gyda phobl yn gallu cyfrannu'n adeiladol i weithgareddau'r Gymdeithas oherwydd dyfnder eu profiad. Roedd canran y siaradwyr Cymraeg a'r nifer sy'n deall Cymraeg yn ffactor calonogol ac yn adlewyrchu agwedd iach y Gymdeithas tuag at y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg sydd mewn cyhoeddiadau, cynnyrch cyhoeddi, ac arwyddion. Dylid ystyried sut i gefnogi'r rhai sydd heb unrhyw afael ar y Gymraeg er mwyn sicrhau eu bônt yn gallu ynganu'n gywir enwau pentrefi, eglwysi a ffermydd. Tybed a fyddai'r bobl sydd wedi symud i fyw ym Môn yn elwa o gyfres o sgrysiâu cefndir er mwyn iddynt ddeall gwahanol agweddau o hanes y Sir?

Yn Adran B, cafwyd yr ymatebion canlynol i'r profiad o fynychu cyfarfodydd a theithiau'r Gymdeithas: Roedd 42% wedi mynychu chwech neu fwy o gyfarfodydd o'r Gymdeithas yn ystod y deuddeg mis blaenorol; cyfaddefodd 18% iddynt fethu mynychu'r un Cyfarfod yn ystod y flwyddyn flaenorol; y cyfarfodydd gafodd y gefnogaeth gryfaf oedd y rhai ar destunau poblogaidd yn hytrach na'r rhai ar destunau mwy academaidd (e.e. gwrrachod, undebau ffermwyr); roedd 23% wedi bod ar bump neu fwy o deithiau yn ystod haf 2014 ond fe welwyd na fu 46% ar unrhyw daith o gwbl; ymddengys mai'r teithiau mwyaf poblogaidd oedd y rhai i safleoedd sydd ar gau i'r cyhoedd fel arfer (e.e. ymweld â llong ymchwil, y Prince Madog); dywedodd 71% o'r aelodau fod y syniad o Ginio neu Swper y Gymdeithas fel bo modd i bobl gyfarfod yn anffurfiol, yn apelio; ystyriwyd Trafodion y Gymdeithas yn lyfrau cyfeirio gwerthfawr gyda'r aelodau'n eu gweld yn gymysgedd da o destunau, ond mynegwyd gan rai bod angen i gael un Cyfrol ar un pwnc penodol, a bod lle ambell dro i gynnwys erthyglau ysgafnach.

Pwyntiau Trafod Adran B – Nid Gymdeithas gyda nifer sefydlog o aelodau sy'n mynychu pob Cyfarfod yw'r Gymdeithas hon, a felly ni ellir ei chymharu â chymdeithasau hanes lleol llai. Ni ddylid diystyru'r syniad o 'hanes poblogaidd'. Mae'r teithiau'n llai poblogaidd na'r cyfarfodydd, ond efallai mai ffactor yn ymwneud a symudedd sy'n bennaf gyfrifol am hyn. Mae'r syniad o bryd bwyd ar y cyd yn apelio ond mae profiadau'r gorffennol yn dangos fod trefnu achlysur o'r fath yn derbyn cefnogaeth ddigon lluoer. Mae'n amlwg fod y Trafodion yn cael eu hystyried fel agwedd bwysig yng ngwaith y Gymdeithas ond efallai y dylid ystyried y posibilrwydd o gynnwys erthyglau ychydig yn ysgafnach o bryd i'w gilydd.

Yn Adran C, dyfodol y Gymdeithas oedd dan ystyriaeth a dyma'r ymatebion: gwelwyd 73% yn datgan bod eu diddordeb mwyaf hwy yn hanes Môn hyd at ddiwedd y ddeunawfed ganrif, gyda rhywfaint o bwyslais ychwanegol ar y Canol Oesoedd; roedd 70% yn awyddus i weld y fformat bresennol o gyfarfodydd yn parhau, ond yn ddiddorol iawn gwelwyd 16% yn mynegi diddordeb mewn arbrofi efo ffurf fforwm agored ar destunau hanesyddol; er i 60% ddweud iddynt fwynhau'r cyfarfodydd a'r teithiau ar y cyfan, dim ond 40% ddywedodd iddynt eu mwynhau'n fawr iawn; byddai 64% yn gwerthfawrogi cael atgofiad electronig o gyfarfodydd a theithiau; soniodd 50% am eu hawydd i weld teithiau'n cael eu trefnu tu draw i Ynys Môn; yn ystod y

25% understood the language; 89% of those present stated that they enjoyed the lecture format whilst 76% were appreciative of question-and-answer sessions; 46% were eager to experiment with a seminar-type format for some meetings.

Discussion points Section A – The membership is an ageing one but this can mean that people are able to contribute to the activities of the Society whilst making use of their own range and depth of experiences. The percentage of people who understand or speak Welsh is encouraging and reflects the Society's positive attitude towards the use of both Welsh and English in announcements, publicity material and signage. The people who have no knowledge of Welsh might well be appreciative of any assistance to help them pronounce the names of villages, churches, farms. Would the people who have recently moved to Anglesey to live benefit from outline talks on various aspects of the county's history?

In Section B, the responses to previous meetings and excursions produced the following results: 42% had attended six or more meetings in the previous twelve months; 18% had not been present in any of the meetings over the previous year; the most widely supported meetings were on populist subjects (witches, farming unions) rather than the more academic lectures; 23% had attended five or more excursions during the summer of 2014; 46% had not been present in any of the summer excursions; the most popular excursions were to sites not normally accessible to the public (e.g. the Prince Madog research ship); 71% of members were receptive to the idea of an annual Society restaurant meal so that people could meet informally; the Society's Transactions were considered to be useful reference books and that they contain a good mix of subject matter but issues on single themes and some articles with a lighter content would be welcomed.

Discussion points Section B – the Society is not a fixed number of people who loyally attend every meeting and therefore cannot be compared to smaller, local history groups. The idea of 'popular history' should not be discounted. Excursions are less popular than meetings but this may be because of mobility issues. The Society meal seems popular in theory but attempts in the past to arrange such an informal gathering have been less than successful. The Transactions are considered to be an important aspect of the Society's work but there is an interest in leavening the content with more accessible articles.

In Section C, the future of the Society was the main topic and it produced the following responses: 73% stated a preferred interest in historical topics up to the end of the eighteenth century with a slight bias towards the medieval period; 70% wanted the present format of meetings to be retained but an encouraging 16% would like to experiment with a more open forum discussion on historical topics; 60% said they mostly enjoyed meetings and excursions and 40% admitted to really enjoying both activities; 64% would appreciate an electronic reminder of meetings and excursions; 50% wished to see more excursions arranged to sites outside Anglesey; general comments in the discussion included a perceived lack of welcome when people attend meetings, the need to recruit younger members, a desire to have more talks on environmental issues and also on the history of engineering and technology on Anglesey, a call to set up projects to carry out collective research.

Discussion points Section C – The historical periods that are of greatest interest to members should be borne in mind when planning future programmes. The 60% who stated that they

drafodaeth ddilynol, cyfeiriwyd at elfen o beidio estyn croeso i bobl sy'n mynychu cyfarfodydd, soniwyd am yr angen i ddenu aelodau ieuengach, mynegwyd awydd am gael cyfarfodydd yn sôn am yr amgylchfyd ac i drafod hanes technoleg a pheirianneg Ynys Môn, a rhoddwyd sylw i'r syniad o brosiectau ar-y-cyd er mwyn ymchwilio materion penodol.

Pwyntiau Trafod Adran C – Wrth lunio rhaglenni cyfarfodydd i'r dyfodol, dylid ystyried y cynnodau hanesyddol sy'n apelio fwyaf at yr aelodau. Mae'r ffaith bod 60% yn datgan eu bod wedi mwynhau cyfarfodydd a theithiau ar y cyfan yn awgrymu elfen o anfonlonrwydd. Mae'r galw am atgofiad electronig o gyfarfodydd yn awgrymu, o bosib, y dylid ystyried defnyddio e-bostiau grŵp, Gweplyfr a Trydar fel dulliau cyfathrebu. Dylid ystyried yn ofalus y sylwadau a wnaethpwyd yn ystod y drafodaeth (yn enwedig, felly, y teimlad bod diffyg croeso pan fo pobl yn dod i'r cyfarfodydd).

Mae aelodaeth y Gymdeithas yn amrywiol ac ymroddgar, a chyda syniadau positif a barn glir am yr hyn y dylai'r Gymdeithas fod. Nid eitem i lenwi lle gwag yn y sesiwn 'pot-pourri' oedd yr arolwg hwn ond ymdrech ddifrifol i roi llais i'r aelodau, i'w cynnwys yn y broses o redeg y Gymdeithas, ac i gyfrannu tuag at gynllunio'r Gymdeithas i'r dyfodol trwy gynnwys eu syniadau mewn modd adeiladol. Awgrymir y byddai'n fuddiol ail-gynnal yr ymarferiad mewn tair blynedd dyweder, a chymharu'r canlyniadau fel modd o arfanru effeithlonrwydd y Gymdeithas. Diolch o galon i bawb a gymerodd ran yn yr arolwg.

mostly enjoyed meetings and excursions suggest a certain degree of dissatisfaction. The call for an electronic reminder of meetings could involve investigating group e-mails, Facebook and Twitter as media of communication. The comments made during discussion (especially the idea of people experiencing lukewarm welcomes) must be considered carefully.

The Society has a varied and committed membership with clear views and positive ideas on what they want from their membership. This survey was not a convenient 'filler' to complete a 'pot-pourri' programme but a serious effort to give members a voice and to involve them in the running and planning of the Society and this opportunity to express their opinions was used constructively. It is suggested that much would be gleaned from repeating the exercise in, say, three years time and comparing the results as a means of evaluating the Society's effectiveness. A warm thanks is extended to all those who took part in the survey.

Gareth Huws



A warm thanks to all those who took part in the survey

2015 CYFARFODYDD • MEETINGS

Prosiect Gwiwered Coch Môn: Hanes Diweddar
Craig Shuttleworth
17/04/2015

Roedd yn falch gan aelodau'r gymdeithas roi croeso i Dr Craig Shuttleworth, a roddodd ddarlith y noson ar Brosiect Gwiwered Coch Môn. Y Wiwer Goch yw wiwer frodorol yr ynsoedd hyn, ond cyflwynwyd y Wiwer Lwyd Americanaidd ym 1896 fel ychwanegiad deniadol i goed dan reolaeth. Erbyn 1945, roedd y gwiwerod llwyd yn fwy cyffredin, ond dim ond yn Neddwyrair a Chanolbarth Lloegr. Erbyn 2000, roeddent bron ym mhobman, a sylweddolwyd problemau eu harglwyddiaeth. Y brif broblem yw'r niwed enfawr (£6-10 miliwn) i goed ifanc wrth iddynt ddinoethi'r rhisgl er mwyn cael at y sudd. Yn nhermau cadwraeth, y brif broblem yw'r gystadleuaeth lwyddiannus â'r Wiwer Goch.



Dr Craig Shuttleworth

Cystadleuaeth gynnil sydd ar waith: mae'r ddau yn bwyta hadau (mes a chastan y meirch eu hoffter) ac mae'r oedolion Coch yn gallu cyd-fyw â'r Llwydion. Ond ni all yr ifanc Cochion oresgyn, a bydd y genhedlaeth nesaf yn dirywio'n sylweddol. Bydd y Cochion yn bwyta mes, ond tueddant i gollu pwysau arnynt, tra bod y Llwydion yn gallu echdynnu'r protein sy'n dirymu'r tannin yn y fesen. Mae'r Llwydion y cludo firws a wna ychydig niwed iddynt hwy, ond a all fod yn farwol i'r Cochion o fewn tair wythnos. O fewn llwyth wiwerod mawr, gallu'r firws redeg yn wyllt, ond mi ddangosodd adolygiad manwl o Raglen Difa Wiwerod Llwyd nad yw difa'r cwbl yn hanfodol i leihau effaith y firws, achos bydd yn gostwng unwaith bydd llwythau'r Llwydion yn lleihau yn ddigonol eu bod yn gwasgaru.

The Anglesey Red Squirrel Project: A Recent History
Craig Shuttleworth
17/04/2015

Members of the society were pleased to welcome Dr Craig Shuttleworth, who gave the evening's lecture on The Anglesey Red Squirrel Project. The Red Squirrel is the native squirrel of these islands but the American Grey Squirrel was first introduced in 1896 as an attractive addition of managed woodland. By 1945 grey squirrels were quite widespread but only in South East and midland England. By 2000 they were almost everywhere and the problems of their dominance had been realised. The main problem is the immense damage (£6-10 million) that they do to young trees by stripping the bark to get at the sap. In conservation terms, the greatest ecological problem is their successful competition with the native Red Squirrel.

This competition is subtle: they both eat tree seeds (acorns and horse chestnut for preference) and the adult Reds can survive alongside the Greys. However the young Reds do not, and the next generation declines markedly. The Reds eat acorns but they tend to lose weight on that diet, whereas the Greys can strip down protein which neutralises the tannin in the acorn. The Greys carry a virus which does them little harm but can be fatal to Reds within three weeks. In large colonies of squirrels this virus can run riot, but the close review of the 1998-2012 Grey Squirrel Culling Programme has shown that total eradication is not necessary to reduce the effect of the virus since, as the Grey colonies get smaller and more dispersed, the virus naturally declines.

Mae natur tymor hir Prosiect Gwiwered Coch Môn a gwaith ar Wiwerod Coch caeth yn y Sw Fynydd Gymreig, lle mae'n bosib gwylion fanwl y Cochion a Llwydion yn cyd-fyw, yn golygu y gallid arfarnu effaith y difa yn fanwl. Dangosodd y dadansoddiad ei fod wedi bod yn effeithlon, ond y gallasai'r canlyniadau fod wedi eu cyrraedd yn gynt.

Dim ond un boblogaeth oedd yn goroesi ym 1998 – yng Nghoedwig Pentraeth - ond mae wedi tyfu'n gryf, ac ail-gyflwynwyd y Cochion i Goedwig Niwbwrch, y coed ym Mhlas Newydd, Llys Llanfaes, Bodorgan, Wylfa, Coed Cyrnol ym Mhorthaethwy a Nant y Pandy, Llangefni. Maent bellach yn gwasgaru ar draws tir agored. Mae amrywiaeth genynnol yn cynyddu, ac maent yn dangos gwerth economaidd wrth fod pobl yn mwynhau eu gweld a'u bod yn atyniad i ymwelwyr.

Cofnodir gwiwerod Coch bellach yng Ngwynedd ond mae'r pla wiwerod yn rhemp yng nghoed Treborth, ac mi all y Llwydion groesi ar hyd y bont reilffordd, neu gan nofio. O'r herwydd, mae'r Llwydion sydd yn parhau yng Ngwynedd yn fygythiad i'r llwythi newydd ym Môn. Fodd bynnag, gwrthodwyd cais am ddifa yng Ngwynedd am nad yw'r ffiniau yn ddiogel. Mae gwaith gwirfoddol yn parhau, gan fod y gweunydd yn rhwystr naturiol (fel y gwelir gan mor ychydig yw treiddiad wiwerod Llwyd i'r Alban), a'r gobaihw yw y gwelir gostyngiad araf y Llwydion. Mae brechiad yn erbyn yr Adenovirus yn cael ei ddatblygu, all leihau'r angen am ddifa.

David Elis-Williams (Cyfieithydd)

The long-term nature of the Anglesey Squirrel Project and work on Red Squirrels in captivity in the Welsh Mountain Zoo, where contact between Reds and Greys can be closely observed, has meant that the efficiency of the cull can be evaluated in some detail. This analysis has revealed that it has been effective, but the results could have been achieved more quickly.



The only Red Squirrel population surviving in 1998 – in Pentraeth Forest – has grown strongly and Reds have been re-introduced to Newborough Forest, woodland at Plas Newydd, Llys Llanfaes, Bodorgan, Wylfa, Coed Colonel at Menai Bridge and the Llangefni Dingle. They are now dispersing naturally across open country. Genetic variability is increasing and they are showing an economic value as people like to see them and they are proving a draw to visitors.

Red squirrels are now being recorded in Gwynedd but Squirrel pox is rife in Treborth woods and Greys can cross by the railway bridge and can also swim. So the Greys remaining in Gwynedd pose a threat to the new Anglesey colonies. However money for a cull in Gwynedd has been refused because the boundaries are not secure. But voluntary work is continuing since high open moorland is a natural barrier (as can be seen by the limited Grey penetration of Scotland) and it is hoped that the Greys will gradually decline. A vaccine against the Adenovirus is being developed which may reduce the need to cull.

Frances Lynch

Gerallt Llewelyn Jones:
Treftadaeth hanesyddol Môn ac economi'r ynys.
15/05/15

Cyflwynodd yr Athro Robin Grove-White siaradwr y noson, Mr Gerallt Llewelyn Jones, Prif Weithredwr Menter Môn. Cychwynodd Mr Jones gan ystyried cysyniad treftadaeth. Mae'n bwnc sy'n agos i'w galon ac, yn gynyddol, un sydd ag adlais ar lefel unigol, cymunedol ac yn fyd-eang. Gyda gwreiddiau cryf ym Môn, yn bersonol ac yn broffesiynol, mae ganddo ddiddordeb arbennig yn sut y cyd-blethir yr economi a threftadaeth, a sut y maent yn cyfrannu at ei gilydd. Yn ystod ei ddarlith, gan ddefnyddio enghreifftiau cyfareddol o waith Menter Môn, dangosodd Mr Jones y mantoli manwl sydd ei angen er mwyn cyflawni datblygiad treftadaeth gynaliadwy. Tynnodd sylw hefyd at rai o'r heriau a gyfarfu ar y ffordd.



*Gerallt
Llewelyn Jones*

Cychwynodd Menter Môn ym 1995; mae'n fenter trydydd sector â statws 'dielw'. Mae'r cyfarwyddwyr oll yn wirfoddolwyr ac yn cynrychioli amryfal sectorau cymunedau lleol. Sefydlwyd yn wreiddiol er mwyn gweinyddu rhaglen 'LEADER': syniad a ddaeth o Frwsel er mwyn annog ffyrdd o ddatblygu'r economi sy'n harneisio adnoddau unigryw ardal benodol, adeiladu ar y seiliau ac ychwanegu gwerth. Cyfranna Môn fel ardal gyda hanes, daeareg, amgylchedd, amaeth a thirlun, oll yn unigryw – agweddau treftadaeth ddiwylliannol a naturiol, sy'n gwneud yr ynys yn wahanol, yn ddiddorol ac, fel y eglurodd Mr Jones, yn ddeniadol i'r farchnad.

Gerallt Llewelyn Jones:
Anglesey's historic heritage and the island's economy.
15/05/15

Professor Robin Grove-White introduced the evening's speaker, Mr Gerallt Llewelyn Jones, Chief Executive of Menter Môn. Mr Jones began by considering the concept of heritage itself. It is a topic that is very close to his heart and, increasingly, one which has resonance on an individual, community and wider global level. With strong ties to Anglesey, personally and professionally, he is particularly interested in how the local heritage and economy are interwoven and how they contribute to each other. During his lecture, using fascinating examples drawn from the work of Menter Môn, Mr Jones demonstrated the fine balance that has to be struck in order to achieve sustainable heritage development. He also highlighted some of the challenges that have to be met along the way.

Menter Môn started in 1995; it is a third sector enterprise with 'not for profit' status. The directors are all volunteers and representative members of various sectors of local communities. It was initially established to administer a programme called 'Leader': an idea conceived in Brussels to encourage forms of economic development which harness, build on and add value to the unique resources of specific areas. This is where Anglesey comes into the story: a very special island with a unique history, geology, environment, agriculture and landscape – aspects of cultural and natural heritage that make the island different, interesting and, as Mr Jones pointed out, in terms of the economy, marketable.

Mae ystod eang o brosiectau wedi eu cychwyn, eu gweithredu neu wedi eu goruchwylio gan Fenter Môn: achubwyd adeiladau hanesyddol megis Swtan, y bwthyn olaf â tho gwellt ar Ynys Môn, a'u rhoi ar waith er budd cymunedau lleol; sefydlwyd gwarchodfeydd natur leol ar draws yr ynys; ac agorwyd llwybrau beicio a cherdded megis Lôn Las Cefni. Mae cerdded a beicio wedi datblygu cymaint ag i fod yn



ddiwydiannau sy'n ffynnu ar eu liwt eu hunain, gan gynorthwyo i ymestyn y tymor twristiaeth at y gaeaf. Rhoddwyd seiliau cadarn i adfywiad gwledig ar Ynys Môn gan ychwanegu gwerth i adnoddau presennol a chefnogi mentrwyr lleol. Enghraifft ragorol yw Halen Môn o sut y mae Menter Môn wedi cydweithio â busnes lleol er mwyn ychwanegu gwerth at adnodd naturiol, sef heli'r Fenai. Mae Halen Môn bellach yn allforio eu cynnyrch at 58 gwlad, ac yn cyflogi llawer o bobl leol. Mae Mr Jones wedi ymroi i gefnogi cynhyrchion sy'n tanlinellu unigrywiaeth yr ynys; gwel Menter Môn fel ffordd o gymhwyso mentergarwch er lles mwy na busnesau unigol, ar gyfer cymunedau cyfan.

Mae hanes economaidd Môn wedi llywio'r ynys a'i ffawd. Soniodd Mr Jones am hanes Neuadd y Dref, Llangefni, i ddarlunio hyn. Tyfodd Llangefni o dref fechan gyda phoblogaeth o 189 ym 1770, hyd at 1800 ym 1899, wrth iddo ddod yn dref marchnad ffyniannus. Roedd rhaid wrth Neuadd y Dref ar dref farchnad i adlewyrch ei statws. Gwelwyd ym 1822 efallai'r enghraifft gyntaf o 'gyllido torfol' ar Ynys Môn, wrth godi £1300 mewn cyfranddaliadau gan y gymuned, er mwyn adeiladu Neuadd y Dref. Ychwanegodd Sir Richard Williams-Bulkeley £4000 at y gronfa ym 1883. Lanswyd yr adeilad ym 1884 gydag Eisteddfod. Cafodd yr adeilad ysblennydd Fictoraidd ei uchafbwyntiau: cynhaliwyd dawns fawr yno ym 1895, wedyn defnyddiwyd fel ysgol uwchradd ym 1897, dangoswyd y lluniau symudol gyntaf yno ym 1898, ac ym 1906 roedd yn ganolbwynt i ddatliadau'r Blaid Ryddfrydol ar ailetholiad Ellis-Griffith fel aelod seneddol Môn. Ym 1902, codwyd Cloc y Dref o flaen Neuadd y Dref gan deulu Trescawen, er cof am fab a gollwyd yn Rhyfel De Affrica. Erbyn 2009 roedd Neuadd y Dref wedi ei oddiweddyd gan newidiadau yn y farchnad. Roedd trefi marchnad ar draws Prydain yn dirywio. Gwerthodd y Cyngor Sir y Neuadd i Fenter Môn – am un bunt yn unig! Yr her i Fenter Môn oedd sefydlu cynaliadwyaeth yr adeilad, gydag anghenion deublyg: codi incwm a gwasanaethu'r gymuned leol. Bu yn fenter lwyddiannus. Mae swyddfeydd Menter Môn ar y llawr cyntaf, gan ei osod yn gorfforol ac yn athronyddol yng nghanol y gymuned.

Mae treftadaeth naturiol Môn hefyd yn rhan o'i unigrywiaeth. Gwel Menter Môn ei warchodaeth fel rhan bwysig o'i waith. Mae'n cefnogi'r prosiect Wiwerod Coch ac yn allweddol i warchodaeth llygod y dŵr – dwysedd poblogaeth llygod y dŵr ym Môn yw'r uchaf ym Mhrydain. Ar y gweill mae darparu'r cynefin priodol i sefydlu cymunedau Dyfrgwn ar yr ynys.

I grynhoi, pwysleisiodd Mr Jones eto y dylai adfywio ar sail treftadaeth fod yn gymaint am ddatblygu pobl ag am adeiladau. Mae treftadaeth adeiledig yn bwysig, ond rhaid ei blethu gyda gwreiddiau ac economi cymunedau. Rôl Menter Môn yw creu amgylchedd sy'n annog twf a datblygiad sgiliau a chrefftau lleol:

A panoply of projects have been initiated, undertaken and overseen by Menter Môn: historic buildings such as Swtan, the last thatched cottage on Anglesey, have been rescued from dereliction and put to use to serve local communities; local nature reserves have been established across the island; and cycle tracks and footpaths such as Lôn Las Cefni opened – cycling and walking have become such an attraction

on the island that they have become viable industries in their own right, helping to extend the tourist season well into the winter. Rural regeneration on Anglesey has been underpinned by adding value to existing resources and supporting local entrepreneurs. Halen Môn (Anglesey Sea Salt) is an excellent example of how Menter Môn has worked with a local business to add value to a base resource: sea water from the Menai Strait. Halen Môn currently exports their product to 58 countries and employs many local people. Encouraging products that reflect the uniqueness of the island is something Mr Jones is very passionate about and he sees Menter Môn as a means of applying the entrepreneurial spirit to the benefit of more than individual businesses and for communities as a whole.

The economic history of Anglesey has shaped and changed the island and its fortunes. Mr Jones used Llangefni Town Hall to illustrate this. Llangefni grew from a small town of 189 people in 1770 to a population of 1800 in 1899, as it became a thriving market town. A market town needed a Town Hall for business and to reflect its new status. 1882 saw the first possible example of 'crowd funding' on Anglesey as shares of £1300 were raised in the community to construct a Town Hall. Sir Richard Williams-Bulkeley added £4,000 to the fund in 1883. The building was launched in 1884 with an Eisteddfod. This magnificent Victorian building had its glory days: it hosted a grand dance in 1895, was used as a secondary school in 1897, the first movie picture was shown there in 1898 and in 1906 it was the centre of exuberant Liberal Party celebrations on the re-election of Ellis-Griffith as MP for Anglesey. In 1902 the Town Clock was erected to the front of the Town Hall by the Trescawen family, in memory of a son lost in the Boer War. By 2009 the Town Hall had become a victim of changing market forces. Rural market towns across the UK were in decline. The council sold the Town Hall to Menter Môn for the princely sum of one pound! The challenge for Menter Môn was to make the building sustainable – its needs were twofold: to raise an income and serve the local community. This has been very successfully done by providing office accommodation on the upper floors and a community space on the first. It has proved a viable enterprise. Menter Môn holds offices on the upper floor - placing it physically and philosophically at the centre of the local community.

The natural heritage of Anglesey is also a very important part of its uniqueness. Menter Môn see its protection as an important part of its work. It supports the Red Squirrel project and is instrumental in the protection of the island's water voles – Anglesey has the highest water vole concentration in the UK. Moves are also underway to provide the right habitats to establish otter colonies on the island.

gweithio gyda phobl i gynhyrchu'r gorau sydd gan Fôn i gynnig.

Caewyd y ddarlith gan gymeradwyaeth gwerthfawrogl, a diolchodd Robin i Mr Jones am ei anerchiad diddorol a goleuol.



David Elis-Williams (Cyfieithydd)

To sum up, Mr Jones reiterated that heritage-based regeneration should be about developing people as much as buildings. The built heritage is important but it must be bound into the roots and economy of communities. Menter Môn's role is to create an environment which encourages the growth and development of local skills and crafts: working with people to produce the best that Anglesey has to offer.

The lecture closed to appreciative applause and Robin thanked Mr Jones for such an enjoyable and enlightening talk.

Karen Pollock

2015 GWIBDEITHIAU • EXCURSIONS

Caergybi: Amgueddfa Forwrol a'r Porthladd.

16/05/2015

Ar brynhawn braf a gwyntog, daeth 32 aelod a gwesteion ynghyd ar draeth Newry, wedi i rai ohonom ymgymryd â phryd o fwyd yn y tŷ bwyta gerllaw. Aethom ar fwrdd bws Stena, ac wrth wyllo'r morglawdd a'r harbwr allanol, siaradodd ein Harweinydd, Mr Gareth Huws yn gryno ar ei hanes, gan ddyfynnu disgrifiad o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fel 'yr harbwr godidocaf yn y bydysawd'. Aeth y bws â ni drwy Gaergybi, heibio tŷ Capten Skinner, ac i'r dderbynfa ddiogelwch ar gyfer y llongau fferi. Dilynasom y llwybr o gwmpas adeiladau'r Iard Forwrol, sy'n cael eu hadfer, ac arhosom i brofi golygfa eglur o dy'r Capten, Eglwys Cybi Sant a'r gaer Rufeinig gerllaw. Daeth y bws â ni at fan gwyllo lle gwelwyd y ddwy fferi, y llong Wyddelig, Ulysses a'r Stena Adventurer, yn llwytho cerbydau. Eglurwyd y trefniadau yn fanwl gan ein tywysydd Stena, Mr Alan Williams, a sut roedd y ddwy long yn mynd at Ddulyn. Yn ystod ei sgwrs, caeodd y Stena Adventurer y drysau, a gwylasom yn ymadael ar ei mordaith. Aethom ymlaen ar y bws ar hyd y rhan estynedig diweddar o Ynys Halen at Bier y Morlys, a hyd at y goleudy segur. Eisteddasom yno i wrando ar sgwrs Mr Richard Burnell am hanes y pier, yr orsaf reilffordd a fuodd, a'r pier coed estynedig a ddymchwelwyd yng nghanol yr ugeinfed ganrif.

Newyddion trist y diwrnod oedd na fuasai'n bosib i'n cyd-aelod a thywysydd arall Mr John Cave i ymuno â ni oherwydd salwch difrifol ei ferch ieuegaf, a fuodd farw'r diwrnod canlynol. Mynegodd pawb eu cydymdeimladau. Buasai John wedi ein tywys i mewn i'r goleudy, ond bydd rhaid i hwnnw ddisgwyl am dro arall. Gwaith Rennie yw'r pier a'r goleudy, ond gorfu i Telford gwblhau'r prosiect. Dangosodd Richard ran o'r pier gwreiddiol oedd yn goleddf tuag allan. Roedd gwelliannu'n angenrheidiol er mwyn sicrhau ochr fertigol i gyd-fynd ag ochrau blychau

Holyhead: Maritime Museum and Port.

16/05/2015

